# TEITHIO YMLAEN – Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr
## Uwch Ymarferydd: Ymgysylltu, Cyfranogiad a Chynrychiolaeth
## (Dros dro hyd at 31 Mawrth 2027)

Mae TGP Cymru yn un o'r elusennau mwyaf blaenllaw yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed drwy ystod o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Mae gwasanaethau TGP Cymru yn cael eu hariannu gan nifer o gyllidwyr ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.

**Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau i Deuluoedd

**Yn gyfrifol i:** Rheolwr Tîm Teithio Ymlaen

**Lleoliad:** Gweithio ledled Cymru, gweithio gartref ond bydd angen teithio'n rheolaidd yn ôl yr angen.

**Pwrpas y rôl:**

Mae Teithio Ymlaen yn rhedeg gwasanaeth cyngor ac eiriolaeth ledled Cymru sy'n cefnogi teuluoedd a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Bydd deiliad y rôl hon yn gweithio gyda'r tîm Teithio Ymlaen i arwain ar y gwaith rydym yn ei wneud ledled Cymru yn cefnogi ymgysylltu, cyfranogiad a gwell cynrychiolaeth o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau bod lleisiau'r gymuned yn cael eu clywed ar faterion sy'n bwysig i'r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw.

Bydd hyn yn cynnwys cefnogi fforymau lleol, helpu cymunedau i gyfrannu at ymgyngoriadau a datblygu cyfleoedd ar gyfer mwy o gynrychiolaeth gan gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Rôl dros dro yw hon hyd at 31 Mawrth 2027 i gyflenwi ar gyfer rhywun sydd ar secondiad.

Bydd deiliad y rôl hon yn:

- Cydlynu, ymgynghori a datblygu cyfleoedd i sicrhau bod lleisiau'r gymuned yn cael eu clywed gan wneuthurwyr penderfyniadau, yn lleol neu'n genedlaethol, yn seiliedig ar flaenoriaethau cymunedol a chyfleoedd polisi
- Datblygu cyfleoedd i bobl ifanc gyfranogi ar y cyd â phartneriaid
- Datblygu hyder/gallu/sgiliau'r gymuned i gynyddu cynrychiolaeth e.e. drwy fforymau lleol neu ddatblygu mentrau/partneriaethau newydd a arweinir gan y gymuned
- Cefnogi ein Heiriolwyr Cymunedol

**Atebolrwydd / Cyfrifoldebau**

- Cydlynu a datblygu rhaglen o weithgareddau ledled Cymru, gan weithio'n agos gydag aelodau eraill o'r tîm i nodi cyfleoedd i gynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol
- Datblygu cynllun gwaith ar gyfer y rhan hon o'r gwasanaeth

- Gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan ymgysylltu, cefnogi a datblygu cyfleoedd i gwrdd yn effeithiol â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn genedlaethol
- Cysylltu a thrafod â gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddatblygu ffyrdd effeithiol o sicrhau bod lleisiau'r gymuned yn cael eu clywed a bod gweithredu ar yr hyn sy'n cael ei ddweud
- Cefnogi tîm o Eiriolwyr Cymunedol a bod yn rheolwr llinell arnynt
- Cefnogi ein Swyddog Ymgysylltu sy'n gweithio gyda chymunedau Roma a bod yn rheolwr llinell arno
- Codi ymwybyddiaeth, meithrin dealltwriaeth ac ennyn brwdfrydedd am waith y prosiectau, ymhlith cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol
- Monitro ansawdd y gwasanaeth yn erbyn safonau a dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol lle mae'r perfformiad yn is na'r dangosyddion a'r safonau y cytunwyd arnynt
- Rheoli cyllideb gwasanaeth o ddydd i ddydd a chyfrannu at bennu cyllideb
- Sicrhau bod unrhyw bryderon diogelu yn cael eu trin yn briodol o fewn y gwasanaeth
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i fonitro ac adrodd yn rheolaidd ar weithgareddau'r prosiect, gan gynnwys adborth gan aelodau'r gymuned, i werthuso'r gwaith

- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru i gynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ac arferion gwrth-wahaniaethol trwy'r gwaith a wneir yn y swydd
- Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill a allai fod yn rhesymol ofynnol gan y sefydliad ac sy'n gyson â gradd.

**Dangosyddion Perfformiad**

- Bod yn gyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol a safonau ymarfer.
- Ansawdd y gwasanaeth a chydymffurfiaeth yn erbyn safonau a gofynion statudol, rheoleiddiol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau gwasanaeth ac unigol.

**Cyfrifoldeb rheoli llinell**

- Swyddog Ymgysylltu (cymunedau Roma)
- Eiriolwyr Cymunedol – dwy rôl ar hyn o bryd ar sail achlysurol / sesiynol

**Cyfrifoldeb rheoli cyllideb**
I'w gadarnhau

**Gradd:**
Graddfa 3

**Amodau gwaith:**

- 24 awr yr wythnos gydag ymagwedd hyblyg at yr wythnos waith
- Gweithio gartref – hybrid
- Bydd angen teithio ledled Cymru, a all gynnwys aros dros nos weithiau os bydd angen i gefnogi digwyddiadau cymunedol neu weithgareddau ymgysylltu
- Efallai y bydd angen aros dros nos weithiau ar gyfer cyfarfodydd ac ati hefyd
- Telir am yr holl filltiroedd a chostau teithio

**Cymwysterau**

- Cymhwyster rheoli (Dymunol)
- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel Iechyd ac Addysg (Dymunol)

**Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau**

- Sgiliau cyfathrebu, trafod a rhyngbersonol rhagorol, ynghyd â'r gallu i ymgysylltu'n sensitif ac yn effeithiol ag unigolion a grwpiau o gefndiroedd amrywiol.
- Cydweithio â chydweithwyr a phartneriaid a chydnabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd pobl eraill.
- Sgiliau rheoli tîm, gan gynnwys y gallu i gefnogi ac ysgogi staff.
- Sgiliau trefnu a chynllunio prosiect cryf, ynghyd â'r gallu i flaenoriaethu llwyth gwaith cymhleth.
- Bod yn agored i ddulliau gweithredu a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd.
- Chwilio am gyfleoedd i ddysgu'n barhaus a thyfu'n broffesiynol

**Profiad / gwybodaeth**

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a / neu gofnod o gyflawniad yn y canlynol:

- Profiad o ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol, yn ddelfrydol mewn cyd-destun eiriolaeth neu hawliau.
- Profiad o weithio gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr neu gymunedau sydd wedi'u hymyleiddio neu sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Profiad o weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol ac asiantaethau o'r sector gwirfoddol.
- Profiad o reoli neu oruchwylio staff neu wirfoddolwyr.
- Profiad o ddatblygu, rheoli a chyflawni cynlluniau gwaith a phrosiectau cymunedol.
- Profiad o ddelio â phryderon diogelu yn unol â gweithdrefnau sefydliadol.

- Dealltwriaeth gadarn o'r materion a'r rhwystrau sy'n wynebu cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- Gwybodaeth am egwyddorion eiriolaeth a dulliau cyfranogol i rymuso llais y gymuned.
- Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth cydraddoldeb, arferion gwrth-wahaniaethol, ac ymrwymiad i hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth.
- Ymwybyddiaeth o fframweithiau a chyfrifoldebau diogelu.
- Bod yn gyfarwydd â fframweithiau monitro a gwerthuso a phrosesau sicrhau ansawdd.

**Arall**

- Dangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo'n weithredol mewn pobl eraill.
- Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a hawliau, ac i rymuso cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- Trwydded yrru lawn a mynediad at drafnidiaeth *(Mewn rhai amgylchiadau gellir rhoi ystyriaeth i ymgeiswyr sy'n methu gyrru o ganlyniad i anabledd.)*
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol)